Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# CYLCH GORCHWYL PWYLLGOR SICRWYDD ARCHWILIO A RISG (ARAC)

## 1. Cyflwyniad

1.1 Yn unol â gofyniad statudol,[1] mae Bwrdd Unedol y SAYH wedi sefydlu Pwyllgor Sicrwydd Archwilio a Risg (ARAC) fel pwyllgor i gynorthwyo'r Bwrdd Unedol yn ei gyfrifoldebau dros faterion risg, rheolaeth a llywodraethu trwy adolygu a monitro sicrwydd a dibynadwyedd a chywidreb y sicrwyddau hynny. Hefyd i berfformio swyddogaethau eraill fel ei fod yn briodol. Bydd y pwyllgor yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn unol â gwerthoedd, gorchwyl, polisïau a strategaethau y SAYH.

## 2. Cyfrifoldebau

2.1 Pwrpas y pwyllgor yw cynghori'r Bwrdd Unedol a'r Swyddog Cyfrifyddu ar:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu, a'r Datganiad Llywodraethu;
- yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a Nodiadau i'r Cyfrifon cyfan gan gynnwys polisïau cyfrifyddu'r sefydliad, y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn cyflwyno i'w harchwilio, lefelau o wallau a gafodd eu hadnabod gan yr archwiliad, a llythyr cynrychiolaeth rheolwyr at yr archwilwyr allanol;
- cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau archwilio mewnol, neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn cael eu harchwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- gweithgaredd wedi'i gynllunio a chanlyniadau o archwilio mewnol yn ogystal ag allanol, gan gynnwys:
  - craffu ar gynlluniau'r archwilwyr;
  - adolygu holl adroddiadau'r archwiliad a gyflwynir gan yr archwilwyr mewnol ac allanol;
  - adolygu digonolrwydd ymatebion rheolwyr i argymhellion archwiliad a monitro eu gweithrediad;
- sicrwyddau ynglŷn â rheoli gofynion llywodraethu ar gyfer y sefydliad, gan gynnwys ystyriaethau heb fod yn ariannol, megis ansawdd ac ymdrin â chwynion, yn ogystal ag ystyriaethau risg ariannol;
- datblygu a chyflawni strategaethau perthnasol megis:
  - Strategaeth Cyfalaf
  - Strategaeth Ystadau
  - Strategaeth Seilwaith (gan gynnwys gwybodaeth)
  - Strategaeth Ddigidol
- y polisi rheoli risg, polisi gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd a'r polisi lleisio pryderon yn ogystal â threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig
- asesu gwytnwch TGCh y sefydliad (gan gynnwys seiber) a darparu sicrwydd i'r bwrdd bod y sefyliad yn rheoli pob agwedd o TGCh yn gywir gan gynnwys strategaethau lliniaru risg priodol.

Materion eraill y ceisiwyd ei gyngor arno gan y Bwrdd Unedol neu'r Swyddog Cyfrifyddu.

[1] Atodlen 9 para 14, Deddf Plismona a Throseddu 2017.

2.2 Bydd y pwyllgor yn:

- gweithio ac ymgysylltu yn ôl yr angen â holl bwyllgorau eraill y bwrdd, gan ystyried effaith rheoli risg a rheolaethau mewnol yn cael eu dirprwyo i bwyllgorau gwahanol yn arbennig.
- trefnu ar gyfer yr adolygiad blynyddol o'i effeithiolrwydd ei hun ac yn adrodd am ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Bwrdd Unedol.
- adolygu ei gylch gorchwyl yn flynyddol i sicrhau ei fod yn gweithredu ar effeithiolrwydd mwyaf ac yn argymell unrhyw newidiadau i'r Bwrdd Unedol yn ôl yr angen.

**3. Aelodaeth**

3.1. Bydd y pwyllgor yn cynnwys o leiaf dri aelod, a bydd gan o leiaf un ohonynt brofiad ariannol diweddar a pherthnasol ac â chymhwyster mewn cyfrifyddu a/neu archwilio.
3.2. Bydd aelodau'r pwyllgor yn cael eu penodi gan y Bwrdd Unedol ar enwebiad Cadeirydd y Bwrdd.
3.3. Darperir hyfforddiant priodol ac amserol i aelodau'r pwyllgor ar ffurf rhaglen gynefino i aelodau newydd ac ar sail barhaol i bob aelod.
3.4. Bydd holl aelodau'r pwyllgor yn gyfarwyddwyr anweithredol.
3.5. Dim ond gan aelodau'r pwyllgor mae'r hawl i fynychu cyfarfodydd pwyllgor. Aelodau'r pwyllgor yw:

- Catherine Jervis (Cadeirydd y Pwyllgor)
- Bill Matthews (Dirprwy Gadeirydd)
- Christine Elliott (Aelod)

3.6. Gall y pwyllgor:

- Gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod penodol yn seiliedig ar asesiad Cadeirydd y pwyllgor o'r angen i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol. Bydd Cadeirydd y pwyllgor yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Unedol.
- Ofyn i unrhyw swyddog o'r sefydliad i fynychu cyfarfod cyfan neu ran ohono i'w gynorthwyo â'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol.

Bydd gan Reolwr Risg ac Archwilio'r SAYH, Pennaeth Archwilio Mewnol, a chynrychiolydd archwilio allanol, fynediad rhydd a chyfrinachol at Gadeirydd yr ARAC.

**4. Cyfarfodydd a phresenoldeb**

4.1. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ar fylchau priodol yn y cylch adrodd ac archwilio ariannol yn ôl y gofyn.[2]
4.2. Gall Cadeirydd y pwyllgor alw cyfarfodydd ychwanegol fel y bernir sy'n angenrheidiol neu fel y gofynnir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a/neu'r Bwrdd Unedol i drafod materion neilltuol.
4.3. Bydd cyfarfodydd y pwyllgor fel arfer yn cael eu cynnal yn Llundain, heblaw bod y pwyllgor yn penderfynu fel arall. Gall cyfarfodydd hefyd gael eu cynnal yn rhithiol.
4.4. Gall aelodau'r pwyllgor gyfarfod ar eu pennau eu hunain neu ag archwilwyr yn unig (Archwilwyr mewnol ac Archwilwyr Allanol), neu reolwyr yn unig. Cynhelir y fath gyfarfodydd wrth ddisgresiwn Cadeirydd y pwyllgor yn dilyn ymgynghoriad ag aelodau eraill.
4.5. Y tu allan i raglen cyfarfod ffurfiol, bydd Cadeirydd y pwyllgor, ac i raddau llai, aelodau eraill y pwyllgor, yn cynnal dialog ag unigolion allweddol, sy'n cymryd rhan yn llywodraethu y sefydliad.

[2] Canllawiau'r FRC ar bwyllgorau archwilio paragraff 18.

4.6. Dim ond aelodau'r pwyllgor sydd â hawl i fynychu cyfarfodydd pwyllgor.[3] Mynychwyr eraill y cyfafod yw:

- Cyfarwyddwr Cyffredinol (Swyddog Cyfrifyddu)
- Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol (Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol) (Arweinydd)
- Pennaeth Cyllid
- Rheolwr Risg ac Archwilio
- Ysgrifennydd Llywodraethu
- Cynrychiolydd Archwilio Mewnol (GIAA)
- Cynrychiolydd Archwilio Allanol (NAO/BDO)

4.7 Gall y pwyllgor ofyn am bresenoldeb swyddogion eraill y SAYH yn ôl yr angen i gynorthwyo â'i drafodaethau ar unrhyw fater neilltuol. Mae "presenoldeb" yn cynnwys cyfranogaeth rithiol.

4.8 Gall y Cadeirydd ofyn i unrhyw un neu bob un o'r rheini sy'n mynychu fel arfer, ond nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor i dynnu yn ôl i hwyluso trafodaethau agored a gonest am faterion penodol pe byddai hynnny'n cael ei ystyried yn briodol.

## 5. Hysbysiad o Gyfarfodydd Pwyllgor

5.1. Heblaw y cytunir fel arall gan y pwyllgor, bydd hysbysiad o bob cyfarfod yn cadarnhau'r lleoliad, amser a dyddiad ynghyd ag agenda a phapurau cyfarfod, yn cael eu hanfon ymlaen at aelodau'r pwyllgor heb fod yn hwyrach na phum diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. Bydd yr holl ddogfennau yn cael eu hanfon at aelodau'r pwyllgor mewn copïau electronig, heblaw y cytunir fel arall.

## 6. Agenda a Chofnodion cyfarfodydd

6.1 Bydd yr agenda ar gyfer y cyfarfod yn cael ei chytuno gan Gadeirydd y pwyllgor mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Arweiniol.

6.2 Bydd yr Ysgrifennydd Llywodraethu yn cofnodi digwyddiadau a phenderfyniadau holl gyfarfodydd y pwyllgor, gan gynnwys enwau'r rhai sy'n bresennol ac yn mynychu.

6.3 Bydd cofnodion drafft o'r cyfarfod yn cael eu paratoi o fewn pum diwrnod gwaith. Bydd yn amodol ar sylwadau gan y Cyfarwyddwr Arweiniol a chymeradwyaeth gan Gadeirydd y pwyllgor cyn ei ddosbarthu i bob aelod o'r pwyllgor/Bwrdd Unedol, heblaw y byddai'n amhriodol i wneud hynny ym marn y Cadeirydd.

6.4 Bydd cofnodion cyfarfod pwyllgor yn cael eu cymeradwyo (a'u llofnodi gan Gadeirydd y pwyllgor) yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

## 7. Cworwm

7.1 Y cworwm angenrheidiol ar gyfer trafod busnes fydd dau aelod o'r pwyllgor.

7.2 Os nad oes cworwm o fewn 15 munud o'r amser dechrau a drefnwyd, gall y cyfarfod gael ei ohirio.

## 8. Cyfrifoldebau adrodd

8.1. Bydd Cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ffurfiol yn ysgrifenedig i'r Bwrdd Unedol a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol (fel Swyddog Cyfrifyddu) ar ei drafodion ar ôl pob cyfarfod o fewn ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau.

[3] Cylch Gorchwyl Model ICSA ar gyfer pwyllgor archwilio – para 1.3.

8.2. Bydd y pwyllgor yn darparu Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd Unedol a'r Swyddog Cyfrifyddu, wedi'i amseru i gynorthwyo cwblhau cyfrifon y SAYH a'r Datganiad Llywodraethu, gan grynhoi ei gasgliadau o'r gwaith mae wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn.

8.3. Bydd y pwyllgor yn gwneud pa bynnag argymhellion i'r Bwrdd Unedol y mae'n barnu sy'n briodol ar unrhyw faes o fewn ei orchwyl lle mae angen gweithredu neu welliant.

**Dylai'r Cylch Gorchwyl hwn gael ei ddarllen ar y cyd â Rheolau Sefydlog y SAYH sy'n cynnwys y cynllun dirprwyo.**

---